PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 26 | Mehefin 29, 2023 | 50c.

## Tir Dewi

Yn ystod 2022 elusen enwebedig Ebeneser Caerdydd oedd Tir Dewi. Wrth lansio ein hymdrech dros yr elusen hon ym mis Ionawr dywedodd Arwel Williams, ‘Sefydlwyd Tir Dewi gan yr Hybarch Eileen Davies Archddiacon Aberteifi a’r Esgob Wyn yn 2015. Roeddent yn cydnabod y ffaith gynyddol bod angen dybryd am help ar ffermwyr a oedd yn dioddef amserau anodd fel salwch, problemau meddyliol, hunan laddiadau, prinder arian a marwolaethau.

‘Gyda chefnogaeth ariannol hael yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Tyddewi) a Chronfa Cefn Gwlad y Tywysog sefydlodd Eileen Davies Tir Dewi, gwasanaeth cefnogaeth, naill a’i trwy ffonio neu ar y fferm, i ffermwyr gorllewin Cymru. Mae angen i ffermwyr wybod ein bod ni yma ac y gallwn helpu.

‘Wedi dechreuadau bach yn Sir Benfro y mae Tir Dewi wedi llwyddo i gynorthwyo cannoedd o ffermwyr a’u teuluoedd i ymdopi. Erbyn hyn mae Tir Dewi wedi ei sefydlu mewn sawl sir ond mae angen ehangu’r gwaith i wasanaethu ffermwyr ar draws Cymru gyfan.’ info@tirdewi.co.uk

### Gweithgareddau

Yn ystod y flwyddyn bu nifer o weithgareddau i godi arian. Noddwyd Gwynfor a Siân Morgan i gyflawni Her y Tri Chopa. Rhedodd un o’n diaconiaid, Gwilym Jeffs, 10k Caerffili. Yn dilyn ein hoedfa ar brynhawn Sul 4 Medi fe gynhaliwyd te pnawn. Roedd y tîm elusen wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn paratoi a threfnu ac yr ydym yn eu dyled am eu gwaith mawr. Hwyliwyd y byrddau yn gymen addurnedig yn festri capel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd bu bwyta, gwledda a chwerthin yng nghwmni ein gilydd. Fe gafodd bawb lond bol – mewn ffordd dda – ym mwyty Indiaidd yr Empire, Albany Road ar nos Fawrth 22 Tachwedd. Daeth criw da at ei gilydd ac fe gafwyd gwledd o fwyd danteithiol a llawer iawn o sbort. Diolch i bawb fu’n rhan o’r trefnu ac i Sami, y rheolwr, a’i dîm yn yr Empire am y croeso ymerodrol. Rhannodd Arwel ac Eleri Williams hadau blodau haul, sef blodyn cenedlaethol Wcráin, er mwyn cofio am bobl Wcráin ac i godi arian. Ar ddechrau’r flwyddyn (2022) rhoddwyd blwch ‘cadw-mi-gei’ i bawb eu llenwi gyda rhoddion yn ôl eu gallu. Ar ddiwedd y flwyddyn fe’u casglwyd a chafwyd cyfraniadau hael.

### Cyflwyno

Braint oedd cael cwmni prif weithredwr elusen Tir Dewi, sef Gareth Davies, gyda

*parhad ar dudalen 2*





## Taith gerdded



Bu’n wythnos o lawen chwedl unwaith eto yn hanes Cristnogion Pwllheli. Wedi seibiant o dair blynedd, teimlwyd yr awydd a’r angen i ailafael mewn gweithgareddau i godi arian ar gyfer Gymorth Cristnogol ym mis Mai. Aeth y pedwar enwad ati i gasglu arian ar y stryd, i gynnal bore coffi a thaith gerdded ynghyd a noson o wledda ar *rolls* selsig, cig moch a phaned (gyda gemau a chwis) gan glwb plant y Drindod. Daeth yr ymdrech i ben ar y Sul gyda gwasanaeth undebol yn eglwys St Pedr o dan arweiniad y Tad Rhun ap Robert. Diolch calon i bawb am bob ymdrech a’r cydweithio hapus yn yr heulwen braf.

**Glenys Jones**

# CALONDID Y LLYFRAU SANCTAIDD

Yr ydych yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain ...
*Ioan 5:39*

Gan hynny, er nad oes arnom ni angen cytundebau o'r fath, am fod gennym yn galondid y llyfrau sanctaidd sydd yn ein meddiant ...
*1 Macabeaid 12:9 (Apocryffa)*

A ninnau hefyd, mae gennym yn galondid y llyfrau sanctaidd sydd yn ein meddiant. Mae gennym ein Llyfr Mawr: y Beibl – llond silff o lyfrau o fewn un clawr. Llyfr penodol at bob achlysur. Mae hwn fel glaw yn adfywio, fel lamp yn goleuo, yn fwyd a diod i bawb a'i darlleno; yn gyffur ac yn gyffro, yn sicrwydd ac yn swcwr. Does yr un profiad yn hanes pobl, boed gamp neu remp, nad ydi'r llyfr hwn wedi'i gynnwys mewn rhyw adnod neu'i gilydd. Dyma lyfr sydd yn darllen a thrafod pobl. Y llyfr hwn yw ein tystysgrif geni, ein coeden achau, hen albwm lluniau'r teulu. Teulu mawr, hen deulu digon brith, ond teulu Duw. Tystiolaeth y Beibl yw bod Gair Duw yn allu nerthol. Cleddyf, clustog, gordd, llusern. Mae Duw yn ein cyfarch ynddo a thrwyddo. Dwi'n dweud hyn, nid oherwydd fy mod i'n credu bod y Beibl yn ddwyfol. Gwyrth y Beibl yw ei fod yn ein harwain y tu hwnt iddo'i hun.

### At y Gair tragwyddol

Gwrandewch ar eiriau Iesu yn Efengyl Ioan: 'yr ydych yn chwilio'r ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod i chwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy. Ond tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain ...' Mae'r Beibl yn ein tywys at y Gair tragwyddol a wnaethpwyd yn gnawd.

Er mwyn cael gafael ar galondid y llyfrau sanctaidd sydd yn ein meddiant, mynnwn bob cyfle i ddarllen a thrafod y Beibl. Mae 'na ddwy ffordd o wneud hynny. Mae un yn haws o dipyn na'r llall. Fe allech chi ddarllen a thrafod Gair Duw ar eich pen eich hun. Dim ond ambell un sydd yn gallu gwneud hyn. Wrth ddarllen y Beibl ar eich pen eich hunan, byddwch yn clywed fawr ddim ynddo ond adlais o'ch llais eich hunan. Bydd y Beibl fel carreg ateb yn bwrw eich geiriau, a'ch syniadau a'ch mympwyon yn ôl atoch. Ond, mae 'na ffordd arall, hen ffordd o ddarllen y Beibl, sef ei ddarllen a'i drafod gyda phobl eraill. Ni ellid dadlau nad oes llawer o rym, goleuni a chysur yn llenwi calonnau miloedd o bobl oherwydd iddynt fentro gwneud hynny. Dyma'r dasg fwyaf diddorol, fwyaf bywiog, fwyaf anturus y gelwir arnom i'w chyflawni ym myd ein crefydda heddiw, bwriwn iddi gyfeillion.

### Yn nyfnder y dyfnder

Er mwyn cael gafael ar galondid y llyfrau sanctaidd sydd yn ein meddiant, mynnwn bob cyfle i gofio cofio geiriau'r Gair. Perthyn i eiriau rym syfrdanol. Cynnyrch pobl ydynt, ac eto maen nhw'n mowldio pobl. Mae geiriau'n treiddio i ddyfnder person, mae geiriau'n cario atgofion cenedl ac atgofion y ddynoliaeth. Dylid cymryd pob gofal pa eiriau, a geiriau pwy a osodir yng nghist y galon. Nid ofer yw dysgu adnod, neu hyd oed hen bennill, neu ddarn o farddoniaeth – creu imiwnedd a wnawn i wenwyn sloganau slic ein cyfnod.

Mae miloedd lawer o bobl yng Nghymru heddiw a fu'n dysgu adnodau pan oeddent yn blant bach, ac mae'r geiriau rheini wedi aros yn nyfnder ei dyfnder yn atgof na ellir byth ei dileu. Gwyddant am galondid y llyfrau sanctaidd. Wrth drafod y Gair, a thrysori geiriau Gair ar gof a chadw profwn o galondid y llyfrau sanctaidd sydd yn ein meddiant.

(OLIE)



# Tir Dewi – parhad

ni yn yr oedfa foreol ar y Sul cyntaf o Fehefin. Daeth atom yr holl ffordd o Roch yn Sir Benfro er mwyn derbyn siec o £3,600 tuag at yr elusen. Trwy amrywiol weithgareddau y llwyddasom i godi'r cyfanswm hwn.

Yr oedd naws arbennig yn yr oedfa ac fe siaradodd Gareth Davies yn deimladwy am waith pwysig Tir Dewi gyda'r sector amaethyddol yng Nghymru. Clymodd hynny gyda gwaith Duw yn ei fywyd ef ei hun a'r ffaith iddo ddod yn Gristion wedi iddo ymddeol. Trawsnewidiwyd ef o fod yn atheist brwdfrydig i fod yn Gristion o argyhoeddiad. Ac fe roddodd yr Arglwydd iddo yr adnoddau priodol i gyflawni'r swydd hon yn effeithiol. Nod yr elusen yw bod yn gefn i ffermwyr a'u teuluoedd ynghanol argyfyngau economaidd, teuluoedd a phersonol gan gynnig clust i wrando a chyngor arbenigol.

Cyflwynwyd y siec gan Eleri Williams. Wrth gwrs, Eleri ac Arwel awgrymodd ein bod yn cefnogi'r elusen hon ar ddechrau 2022 ac mae gan y teulu gysylltiad trwy'r Sioe Frenhinol gydag amaeth yng Nghymru. (Gellir gweld fideo o'r cyflwyniad ar ein sianel YouTube).

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Gill Lewis a'r pwyllgor codi arian am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

# GOFALAETH BRO MORGANNWG

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, ysgrifenyddes Bethel.

**Ffôn: 02920 700272**
**Symudol: 07891 587373**
**E-bost: alwenaharries@gmail.com**

Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 29 2023 RHIF 122

# Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru'n paratoi ar gyfer her seiclo 200 milltir i godi ymwybyddiaeth o anghyfiawnder hinsawdd




Wrth i Gymru ddathlu Great Big Green Week 2023 (10–18 Mehefin), cyhoeddodd y Parch Andrew Sully ei fod ef, ynghyd â thri chyfaill, am fentro ar hyd Lôn Las Cymru er budd prosiectau sy'n mynd i'r afael â materion fel anghyfiawnder hinsawdd.

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phartneriaid lleol mewn rhai o'r cymunedau tlotaf yn y byd, lle mae pobl sydd heb wneud fawr ddim i gyfrannu tuag at newid hinsawdd yn talu'r pris mwyaf.

Mae stormydd difrifol a sychder dwys yn dinistrio cartrefi, yn difetha cnydau a da byw, gan olygu bod miliynau'n ei chael hi'n anodd goroesi.

Mae Andrew yn feiciwr brwd ac fe fydd yn seiclo o Gaergybi i Gaerdydd, rhwng 1 a 4 Gorffennaf, gyda'i gyfeillion John ac Ann Musgrave a Rhun ap Robert.

Dywedodd y gŵr 55 mlwydd oed, sy'n byw yng Nghaerdydd gyda'i wraig, Mary, sy'n Esgob Llandaf: "Rwy'n teimlo'n gryf ynghylch anghyfiawnder hinsawdd a hefyd yn awyddus i weld mwy o bobl yn mynd allan i fwynhau natur trwy gerdded neu seiclo.

"Fe deimlais i fod yr her hon yn ffordd dda o godi arian ac ymwybyddiaeth o bob math o brosiectau cynaliadwy."

Mae Andrew'n lansio'r digwyddiad codi arian gyda dau wasanaeth cymun – yn Llangollen a Llandudno ar 29 a 30 Mehefin – i gyd-fynd â dathlu 30 mlynedd ers ei ordeinio'n ficer.

Bydd y pedwar beiciwr wedyn yn gadael ddydd Sadwrn, 1 Gorffennaf, gan oedi mewn bore coffi ym Mangor, cyn anelu am Borthmadog a Phortmeirion.

Bydd y daith wedyn yn mynd tua Harlech, y Bermo, Aberdyfi, a Machynlleth. Bydd y criw'n aros dros nos yn Llanbryn-mair ac yna'n seiclo 'mlaen am Lanidloes, Llanfair-ym-Muallt ac Aberhonddu, yn dilyn Taith Taf i Ferthyr Tudful a Phontypridd, cyn diweddu'r daith gyda derbyniad yn Llys Esgob, cartref Andrew yn Llandaf.

Yno, bydd yr Esgob Mary a gwahoddedigion yn croesawu beicwyr Lôn Las Cymru adref ac yn cymryd y cyfle hefyd i ddiolch i wirfoddolwyr Cymorth Cristnogol am eu hymdrechion yn ystod y flwyddyn.

Mae Andrew yn feiciwr profiadol, ac wedi seiclo i drafodaethau hinsawdd COP15 yn København yn 2009, a hefyd o Lundain i Baris, Whitehaven i Whitby a Land's End i John O'Groats.

Ychwanegodd: "Y flwyddyn 2006 oedd y tro cyntaf imi seiclo o ddifrif ac roedd hynny gyda Chymorth Cristnogol. Fel mae'n digwydd, fe dorrais i bont fy ysgwydd ar y diwrnod olaf wrth gwympo oddi ar fy meic.

"Rwy'n gobeithio yr aiff y daith hon yn esmwyth ond mae rhai rhannau heriol iddi. Dwi wedi bod yn ymarfer bob wythnos, felly'n teimlo'n barod ac yn edrych ymlaen. Y gobaith ydy cwblhau rhyw 50–60 milltir y dydd, ac fe fydd hi'n gyffrous seiclo ar bob math o dir, gan gynnwys traciau'r arfordir, llwybrau camlesi a mynyddoedd.

"Bydd llawer o'r daith yn dilyn llwybrau seiclo Sustrans, sydd wedi'u cysgodi o'r priffyrdd. Dydy rhywun ddim yn sylweddoli faint o waith sydd wedi'i wneud ar y llwybrau hyn i annog pobl i fynd allan ar eu beics.

"Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr her, gan obeithio y daw llawer o bobl allan i ddangos eu cefnogaeth."

I wybod mwy ac i gyfrannu at y dudalen Justgiving, cliciwch ar: Andrew Sully is fundraising for Christian Aid (justgiving.com).

## Swyddog Dysgu a Datblygu Cenedlaethol – Cymru Wales

The Methodist Church
Yr Eglwys Fethodistaidd

**(£28,972 - £35,000 y flwyddyn)**

**Gweithio o gartref 35 awr yr wythnos**

Rydym yn gyffrous eich bod yn ystyried ymuno â thîm gofalgar a brwdfrydig sy'n gwerthfawrogi lles ac sy'n mwynhau cynllun pensiwn hael, yn ogystal, rydym yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith wedi'i ehangu gan wyliau blynyddol hael (gyda 3 diwrnod ychwanegol dros y Nadolig/Blwyddyn Newydd), oriau blynyddol, gwyliau hyblyg a gwasanaeth cefnogol Cynghorydd Lles.

Mae tîm y Rhwydwaith Dysgu yn cwmpasu ystod eang o feysydd dysgu a datblygu ym mywyd yr eglwys. Felly, os ydych yn frwd dros helpu hyrwyddo cenhadaeth Eglwys Fethodistaidd Prydain Fawr, yna hoffem glywed gennych. Gyda hanes profedig o baratoi a chyflwyno rhaglenni dysgu a datblygu seiliedig ar ffydd, byddwch yn rhan o rwydwaith cryf o 38 o weithwyr dysgu a datblygu proffesiynol.

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd fyw yn Ne Cymru a chefnogi gwaith yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru trwy ei Synod dwyieithog sydd newydd ei sefydlu ac yn cynnwys Eglwysi Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â'r eglwys ehangach ar draws y Cyfundeb.

Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys:

- gweithio gyda chydweithwyr i gynllunio, rhannu, datblygu ac adolygu rhaglenni dysgu a datblygu;
- hwyluso sgyrsiau effeithiol a thrawsnewidiol gydag unigolion a grwpiau;
- gweithio ar y cyd a chyfrannu at fentrau dysgu a datblygu cyfundebol, gan rannu doniau a phrofiadau unigol ar draws timau a grwpiau eraill;
- mae teithio rheolaidd, gwaith penwythnos a pheth gwaith gyda'r nos yn hanfodol i'r rôl.

Mae sgiliau allweddol yn cynnwys:

- sgiliau cyfathrebu da (gan gynnwys cyfryngau digidol), cynllunio, trefnu, meithrin perthynas ac arwain.
- Sgiliau Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu.

Fel sefydliad cynhwysol, rydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig eraill (BAME).

Ar gyfer gweinidogion mewn Cyfundeb Llawn mae'r telerau gwasanaeth safonol yn berthnasol.

Bydd y penodiad hwn yn amodol ar Ddatgeliad (Manwl) boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Sylwch ein bod yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon yn gynnar. Felly, os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich cais atom cyn gynted â phosibl.

Mae rhagor o fanylion am y rôl ar gael yn Learning & Development Officer (Cymru Wales) (current-vacancies.com)

**Dyddiad cau: Dydd Llun 17 Gorffennaf 2023**
**Cyfweliadau: Dydd Llun 31 Gorffennaf 2023**

# Agor y Llyfr ar ei newydd wedd





Dros y degawd a aeth heibio mae miloedd o blant Cymru wedi clywed storïau o'r Beibl yn cael eu cyflwyno ger eu bron mewn ysgolion cynradd. Datblygwyd Agor y Llyfr yn Gymraeg o adnodd Saesneg llwyddiannus yn dwyn yr enw Open the Book. Lansiwyd Open the Book yn wreiddiol fel ffordd o rannu hanesion o'r Beibl mewn ysgolion cynradd, a hynny gan griw o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi. Criw o weithwyr plant mewn esgobaeth yn ne Lloegr a ddatblygodd y cynllun yn wreiddiol 'nôl yn y nawdegau, ac fe wnaethon nhw fabwysiadu cyfrol o straeon Beiblaidd wedi eu paratoi gan Bob Hartman, ac a gyhoeddwyd fel cyfrol hardd gan gwmni cyhoeddi Lion Publishing, sef *The Lion Storyteller Bible*. Aeth y criw o wirfoddolwyr ati wedyn i ysgrifennu cyflwyniadau byr i bob un o'r 60 stori yn y gyfrol, ynghyd â gweddi i gloi'r sesiwn. Yn ychwanegol at hyn, paratowyd nodiadau manwl ar sut i gyflwyno'r hanesion mewn ffordd greadigol a hwyliog.




Dyma ddechrau ar gynllun a ddatblygodd i fod yn adnodd hynod effeithiol, ac o fewn degawd gwelodd Cymdeithas y Beibl ei werth, gan gymryd perchnogaeth ohono. Yng Nghymru lansiwyd y cynllun yn Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair yn 2010, gyda Cynthia Saunders Davies yn mynd ati i baratoi'r gyfrol liwgar *Beibl Newydd y Storïwr*. Erbyn hyn, mae Cymdeithas y Beibl hefyd yn gweinyddu'r cynllun yng Nghymru.

Yn dilyn cyfnod y clo daeth yn amlwg fod glynu at gyfrol wedi ei chyhoeddi gan gwmni arall yn cyfyngu ar y defnydd posib, yn arbennig o ran yr hawl i greu ffilmiau a sgriptiau i'w rhannu ar y we. Erbyn hyn, SPCK oedd yn berchen ar gwmni Lion, ac roedd goblygiadau rheolau hawlfraint yn creu problemau i Agor y Llyfr. Felly, penderfynwyd mynd ati i greu cyfrol hollol newydd o 90 o straeon Beiblaidd. Unwaith eto, gofynnwyd i Bob Hartman baratoi'r storïau, gyda Siân Roberts a Delyth Wyn yn gofalu am yr addasiadau Cymraeg.

Bydd y cynllun newydd yn cael ei lansio ar 5 Gorffennaf ym Maglan, ger Port Talbot, lle bydd Bob Hartman ei hun yn bresennol. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno yn y cyfarfod, ac i glywed sut fydd y cynllun newydd yn gweithio. Mewn cyfnod lle nad yw'r rhan fwyaf o blant Cymru yn clywed straeon Beiblaidd yn gyson, dyma gynllun gwych i gyrraedd plant mewn ysgolion ledled Cymru. Dewch i glywed mwy ac i gael eich hysbrydoli gan Bob a thîm Agor y Llyfr. Y gobaith yw sefydlu mwy o dimau Agor y Llyfr o gwmpas y wlad yn fuan.

*Aled Davies*

ADNABOD

## Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

# 30 Tair gwers

## Darllen: Genesis 19:1–38

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 120)**

Wedi edrych ar hanes a chymeriad Lot yr wythnos diwethaf, rwyf am grynhoi'r hyn sy'n digwydd yn y bennod. Nid oes angen imi ailadrodd yr hanes am y digwyddiad gan ein bod i gyd wedi clywed am Sodom a Gomorra mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae awdur Genesis yn dweud am Sodom ym mhennod 13, 'Yr oedd gwŷr Sodom yn ddrygionus, yn pechu'n fawr yn erbyn yr ARGLWYDD' (13:13), er bod y gwastadedd hwn 'i gyd yn ddyfradwy, fel gardd yr ARGLWYDD' (13:10).

Er ein bod yn gofidio bod Lot yn dymuno byw yng nghanol 'y bobl ddrygionus' yma, eto nid yw'n rhyfeddod ei fod wedi dewis y lle hwn yn hytrach na'r bryniau a'r mynyddoedd, lle byddai angen gweithio'n galed i ennill bywoliaeth. Cofiwch, yn nhermau heddiw, efallai fod Lot yn fath o ddyn oedd yn credu y byddai byw yng nghanol y bobl yma'n medru gwneud gwahaniaeth, heb ei fod yn gorfod dweud dim, na sefyll yn gyhoeddus yn erbyn eu drygioni. Ond prin y byddwch yn cael yr argraff fod duwioldeb a chredu yn Iesu yn rhywbeth y gall pobl ei ddal oddi wrthych, fel annwyd, dim ond ichi eistedd yn ddigon agos atynt. Tra mae Iesu yn sôn am ei blant fel halen sy'n llosgi er mwyn puro, neu fel goleuni sy'n erlid ac yn dangos tywyllwch, mae'n debyg nad oedd Lot y naill neu'r llall. Pan mae'n ceisio dweud wrth ei feibion yng nghyfraith am ffoi oherwydd 'y mae'r ARGLWYDD ar fin dinistrio'r ddinas', mae'r peth mor ddieithr iddynt fel bod awdur Genesis yn dweud, 'Ond yng ngolwg ei feibion-yng-nghyfraith yr oedd Lot fel un yn cellwair', neu, yng nghyfieithiad Beibl.net, 'Ond roedden nhw yn meddwl mai tynnu coes oedd e.'

O ran dinistr y dinasoedd yma, ceir amryw byd o resymau dros union natur eu gwrthryfel. Yn Eseciel dywedir: 'Hyn oedd drygioni dy chwaer Sodom: yr oedd hi a'i merched yn falch, yn gorfwyta, ac mewn esmwythyd diofal; ond ni roesant gymorth i'r tlawd anghenus. Bu iddynt ymddyrchafu a gwneud ffieidd-dra o'm blaen; felly fe'u symudais ymaith, fel y gwelaist' (Eseciel 16:49–50). O ran y testun ei hun, rydym yn cael cip ar eu hannuwioldeb yn yr ymdrech sy'n cael ei gwneud gan 'ddynion Sodom, pawb o bob cwr o'r ddinas, yn hen ac ifanc' i dreisio'r ddau angel sy'n dod i rybuddio Lot i ddianc: 'Tyrd â hwy allan atom, inni gael cyfathrach â hwy' (19:4,5). Er bod yna rai ymdrechion wedi eu gwneud i awgrymu mai dymuno 'sgwrsio a dod i adnabod' y ddau angel yma yn unig yr oedd dynion Sodom, a bod honno'n ffordd gyfleus o geisio osgoi realiti eu bwriadau. Eto, mae'r testun yn ei gwneud yn amlwg mai bwriad y dyrfa oedd trais rhywiol torfol.

Bwriad Lot, oedd yn amlwg yn rhyw fath o arweinydd yn y ddinas, ac yntau'n cael ei ddisgrifio yn adnod 1 fel gŵr oedd 'yn eistedd ym mhorth Sodom', yw gwarchod yr ymwelwyr ddaeth i'w dŷ. Eto, pan mae'n ceisio cyflawni ei gyfrifoldeb fel lletywr, mae'n cael gwybod yn fuan iawn mai dyn dŵad yw: 'Saf yn ôl! Ai un a ddaeth yma i fyw dros dro sydd i ddatgan barn? Yn awr, gwnawn fwy o niwed i ti nag iddynt hwy' (9). Bellach mae ei fywyd ef a bywyd ei deulu mewn perygl, a rhaid wrth waredigaeth ryfeddol i'w hachub o'r sefyllfa.

Mae hanes y waredigaeth yn gyfuniad o drugaredd Duw ac arafwch Lot a'i deulu. Mae'r proffwyd Amos yn cyfeirio at yr un cyfuniad ym mywyd y bobl yn ddiweddarach yn hanes Israel: ' "yr oeddech fel pentewyn wedi ei gipio o'r tân; er hynny ni throesoch yn ôl ataf," medd yr ARGLWYDD' (Amos 4:11). Er bod realiti canlyniadau annuwioldeb y dinasoedd hyn yn cael ei osod allan yn eglur, eto, 'Yr oedd yntau'n oedi' a bu raid i'r angylion gydio 'yn ei law ac yn llaw ei wraig a'i ddwy ferch, a'u harwain a'u gosod y tu allan i'r ddinas' (19:16). Nid bod arafwch Lot yn syndod inni: rydym yn ddigon cyfarwydd â'r arafwch yma yn ein bywydau ein hunain.

Mae'r awdur at yr Hebreaid yn disgrifio Duw fel 'tân yn ysu', a'n cyfrifoldeb ninnau i 'wasanaethu Duw wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol' (Hebreaid 12:28,29). Wrth 'geryddu'r trefi lle y gwnaed y rhan fwyaf o'i wyrthiau, am nad oeddent wedi edifarhau', fe ddywed Iesu, 'petai'r gwyrthiau a wnaed ynot ti wedi eu gwneud yn Sodom, buasai'n sefyll hyd heddiw. Ond rwy'n dweud wrthych y caiff tir Sodom lai i'w ddioddef yn Nydd y Farn na thi' (Mathew 11:20, 23–4). Yn dilyn iacháu'r dyn wrth bwll Bethesda, mae'r Iddewon yn troi ar Iesu, yn wir, yn dymuno'i lofruddio am ei fod 'yn galw Duw yn dad iddo ef ei hun'. Wrth y rhain, oedd 'yn chwilio'r Ysgrythurau oherwydd tybio yr ydych fod ichwi fywyd tragwyddol ynddynt hwy', fe ddywed Iesu, 'tystiolaethu amdanaf fi y mae'r rhain; eto ni fynnwch ddod ataf fi i gael bywyd' (Ioan 5:18, 39–40).

I gloi'r astudiaeth hon, tri pheth sy'n sefyll allan i mi: trugaredd Duw at Lot a'i deulu; f'arafwch i, fel yntau, yn ymateb i'w drugaredd a'i ras; a'r perygl o beidio ag edifarhau a chefnu ar bechod. Wrth ystyried y trydydd, meddyliwch am eiriau Jwdas (1:7), brawd i Iesu: 'A chofiwch beth ddigwyddodd i Sodom a Gomorra a'r pentrefi o'u cwmpas! Roedd anfoesoldeb rhywiol yn rhemp, ac roedden nhw eisiau cyfathrach annaturiol gyda'r angylion! Maen nhw'n dioddef yn y tân sydd byth yn diffodd, ac mae eu cosb nhw yn rhybudd i bawb' (Mathew 13:55).

1. Yn Rhufeiniaid 10:14 fe gawn y geiriau: 'Ond sut y mae pobl i alw ar rywun nad ydynt wedi credu ynddo? Sut y maent i gredu yn rhywun nad ydynt wedi ei glywed? Sut y maent i glywed, heb fod rhywun yn pregethu?' I ba raddau y mae'n bosibl i gariad at Iesu 'gael ei ddal, heb ei ddysgu'?
2. Rhannwch brofiad o drugaredd Duw, yn benodol, pan oeddech yn gwybod yn dda nad oeddech yn haeddu'r fath drugaredd.
3. Rydym wedi canu llinellau Morgan Rhys droeon: 'Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân, / am achub anhydyn bentewyn o'r tân'. Ymhlith y geiriau sy'n gael eu defnyddio yn y geiriadur i esbonio 'anhydyn' ceir 'ystyfnig' a 'pengaled'. Sut wnaeth Duw ddelio â hyn yn eich profiad personol?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 2 Gorffennaf am 7.30yh**
Mae Lisa Gwilym yn ymweld â Glyn Nest, Cartref y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi, i gwrdd â rhai o'r cymeriadau sy'n byw yno a'r staff sy'n gofalu amdanyn nhw. Hefyd yn taro i mewn fydd y Parchedig Irfon Roberts a'r cerddor Joy Cornock. Daw'r canu mawl o Gapel Pen-y-bont, Llandysul

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 2 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Aberteifi
**Sul, 2 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Medi James, Aberystwyth

# GOHEBIAETH

Annwyl Brif Olygydd,



Gair byr ydi hwn o werthfawrogiad diffuant i Tom Evans am ei eiriau cyfan gwbl onest, doeth a chadarn yn y golofn Barn Annibynnol, 'Baich yr Adeiladau' yn rhifyn 1 Mehefin, 2023 o'r *Tyst*, ac yn y dyddiau sydd ohoni, mae'n angenrheidiol i lawer o'n heglwysi edrych i gyfeiriad yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu.

Yn ei anerchiad o Gadair Undeb Llangefni 1988 mae gan y Parchedig Maurice Loader osodiad fel hyn: 'mae ymlyniad eglwysi Cymru wrth eu hadeiladau yn batholegol.' Roedd hynny yn 1988! Beth am heddiw?

Rwyf innau, o 'mhrofiad fy hun, yn gwybod am broblem adeiladau. Rai blynyddoedd yn ôl bu'n rhaid i eglwys Salem, Porthmadog wneud penderfyniad gwirioneddol anodd; naill ai gwario arian sylweddol iawn ar y capel helaeth neu fod heb weinidog – roedd hi mor syml â hynny. Yn digwydd bod, yn wahanol i sawl achos crefyddol arall, roedd y capel a'r festri ar wahân i'w gilydd yn Salem, hynny yw yr oedd bwlch bychan rhyngddynt, ac yr oedd hynny'n hwyluso'r ffordd i weithredu, a phenderfyniad y 'gweithredu' hwnnw oedd gwerthu'r capel a defnyddio'r festri at bwrpas popeth, sef yr oedfa ar y Sul, yr ysgol Sul ar y pryd a chyfarfodydd yr wythnos. Am flynyddoedd cyn Covid bu'r festri hefyd yn ganolfan i wahanol gyfarfodydd o fewn y dref a'r ardaloedd cyfagos. Bu'n fenter anodd, ac ni allaf ddiolch digon i Salem (yn fy absenoldeb i o'r cyfarfod) am benderfynu mai diogelu'r weinidogaeth oedd y ffactor bwysicaf ac nid diogelu adeilad er mor eiconig oedd hwnnw yng nghanol y dref. Ac mi roedd hi'n anodd oherwydd roedd 'na bobl yn y gynulleidfa oedd wedi'u magu yno, ac iddyn *nhw* wneud penderfyniad fel yna, doedd hi ddim yn hawdd, ond fe'i gwnaethpwyd. Bu Salem yn fentrus.

Stori debyg ar un wedd oedd hi yng Nghricieth ond gydag elfennau gwahanol, a diolch am yr elfennau gwahanol sydd i sawl stori. Gwelwyd ychydig dros ddeng mlynedd yn ôl bod yna gostau ariannol sylweddol ar adeilad capel Jerusalem yr Annibynwyr, ond penderfynwyd yno, yn wahanol i Borthmadog, oherwydd bod yna gydaddoli cyson gyda Chapel y Traeth, yr Eglwys Bresbyteraidd, i lunio cytundeb i rannu popeth yn gyfartal â'r eglwys honno. Gwerthwyd capel a festri Jerusalem ac unwaith eto diogelwyd y weinidogaeth, a hynny eto, yn f'absenoldeb i ar y pryd, oherwydd fel yna y dylid gweithredu – ni ddylai gweinidog byth fod yn bresennol nac rhan o drafodaeth ariannol fel yna, nac unrhyw drafodaeth arall chwaith sy'n ymwneud â hi/ef. Eto, cam anodd, ond cam dalodd ar ei ganfed yng Nghricieth, a bu Jerusalem yn fentrus, fel ag y bu Capel y Traeth yn ddiweddarach wrth gymryd gweinidog Jerusalem yn weinidog ar yr un gynulleidfa.

Mae yna enghreifftiau eraill yn yr ardaloedd yma mewn eglwysi nad ydyn nhw o dan fy ngofal i. Dyna chi eglwys Peniel, Tremadog yn cyfarfod yn y neuadd bentref; Capel y Ddol (Capel y Gwynfryn gynt), Llanbedr ym Meirionnydd yn cyfarfod yn yr ysgol gynradd, a Chapel Coffa, Llanelltyd yn cyfarfod yn y neuadd bentref. A bod yn onest, mae'r cynulleidfaoedd sy'n cyfarfod yn y capeli arferol bellach yn y lleiafrif, mae llu mawr mewn festrïoedd neu gapeli wedi'u haddasu neu adeiladau eraill. A dyna wych! Gyda llaw rhoddwyd llun o gapel Brynrhos, Groeslon ger Caernarfon ar ddiwedd yr erthygl (Brynrhos wedi'i gau bellach, ysywaeth). Dyma enghraifft arall o eglwys a fu, am flynyddoedd cyn y cau, yn defnyddio'r festri a honno wedi'i haddasu.

Y frawddeg allweddol, fel y dywedodd Tom Evans wrth ddyfynnu'r Parchedig Iorwerth Jones flynyddoedd yn ôl ydi: 'Nid cofadail mo'r Eglwys, ond mudiad,' a mudiad sy'n tystio i Iesu Grist mewn byd sy'n prysur newid. Mewn gair, pobl ydi eglwys – unigolion o gig a gwaed, ac nid bwydo'r cerrig wnaeth Iesu ond bwydo'r bobl. Mae angen gadael i'r un Iesu newid ein hagwedd ninnau 'a chracio'r farnish oddi ar galonnau pobl' meddai'r Parchedig Ddr R. Tudur Jones.

Diolch Tom am ein hatgoffa o bethau gwirioneddol hanfodol, ac os nad ydych chithau'r darllenwyr wedi darllen ei eiriau, gwnewch hynny wir.

Yn gywir iawn,
**Iwan Llewelyn**

## EGLWYS YR ANNIBYNWYR CAPEL COFFA, CYFFORDD LLANDUDNO

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Capel Coffa wedi bod o dan weinidogaeth ran amser. Gydag ymddeoliad y gweinidog presennol ym mis Medi, dymuniad yr aelodau yw parhau gyda trefniant tebyg i'r dyfodol.

Gwahoddir gweinidogion o unrhyw enwad i ystyried yr her a'r cyfle a estynnir iddynt drwy fugeilio yr eglwys hon.

Am fanylion pellach cysyllter â chadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol:

Mrs Carol Edwards,
Dwyfor, 12 Lôn Goed,
Cyffordd Llandudno,
Conwy LL31 9HE.

**Ffôn: 01492 581082**
**E-bost: carol.tanyberllan@yahoo.co.uk**



# Barn Annibynnol

## ‘Efallai?’

Does dim yn bod ar ambell i ‘efallai’. Dyma agoriad rhyfedd ar un olwg i erthygl sy’n cynnwys ‘barn annibynnol’, a ninnau’n byw mewn oes lle mae pawb yn ceisio’u gorau glas i fod yn bendant ynglŷn â phopeth. Ond, wedi ichi bori dros yr ychydig frawddegau hyn, fe welwch, gobeithio, mai gair y posibiliadau yw ‘efallai’ ac nad yw o reidrwydd yn golygu ansicrwydd neu ddiffyg hyder. Cynnig ydyw; arwydd o garedigrwydd, ac ystum meddyliol yn gogwyddo tuag at rywun arall. ‘Oes syniad gwell gennych efallai? Mae ’na le inni gyd.




### Succession

‘Chi’n bwysig.’ Dyma ddyfyniad o enau Lucy Prebble, un o ysgrifenwyr y gyfres deledu boblogaidd *Succession* (os nad ydych wedi’i wylio, dychmygwch fersiwn gyfoes o *Dallas* neu *King Lear* hyd yn oed), wrth iddi ddisgrifio’r broses o greu’r ddrama. Mae creadigrwydd agored y sioe yn peri inni ystyried fel y gall meddwl a dweud ‘efallai’ fod mor werthfawr. Cawn ein cymell y dyddiau hyn gan wefannau cymdeithasol i arddangos, diffinio, ymateb yn ffyrnig a rhannu barn galed. Ond o fewn muriau ystafell greu *Succession*, roedd Lucy Prebble a’i thebyg wedi darganfod ffordd o wrando ar y naill a’r llall, rhannu syniadau amryliw heb deimlo ofn o gael eu dilorni. Yn y trafod roedd diogelwch, cydraddoldeb, a gwahoddiad cynnes i bawb gael cyfrannu. A’r cwbl hyn yn deillio o’r ‘efallai’.

### Trafod: cryfder nid gwendid!

Dywed yr awdur Elizabeth Day ei bod hi’n hollbwysig i ferched yn arbennig i ail-fframio eu crebwyll o ‘efallai’, a gwaredu’r ymdeimlad o annigonolrwydd. Rydym wedi dod i arfer â’r meddylfryd ein bod, wrth holi a lleisio ansicrwydd, yn arddangos rhyw fath o wendid. Ond mae’r ddawn o ddal ar amwysedd ein meddwl a phwyllo wrth ffurfio barn yn gallu bod yn bwerus. Canlyniad hyn yw, nid yn unig ein bod yn gryf wrth allu dangos ein parodrwydd i ystyried, ond ein bod hefyd yn galluogi y llall neu eraill i fynegi eu hunain yn llawn hefyd. Wrth roi darnau jig-so at ei gilydd y daw’r llun cyfan yn glir!

### Sut mae byw grym yr ‘efallai’?

Ystyriwn: beth am fentro i beidio ceisio bod yn wastadol bendant? Beth am ildio’n ddewr weithiau, heb ymlynu at y dymuniad i fod yn gywir bob tro? Beth am fod yn barod i drafod? Oherwydd er bod greddf eneidiol yn gallu dweud gwirioneddau, does dim rhaid i reddf gael ei deimlo yn syth na’i ddangos yr eiliad honno i fod yn real! ‘Rhowch y blaen i’ch gilydd mewn parch.’ (Rhufeiniaid 12: 9)

### Pobl resymol

Llyfryn bach diddorol yw *Llawlyfr Pwyllgorau*, G. B. Owen (Dinbych: Gwasg Gee, 1981). Ynddo mae’n diffinio’r gair pwyllgor fel ‘corff o bobl sy’n ymarfer pwyll ac yn rhoi ystyriaeth synhwyrol i faterion.’ Yn Saesneg, mae’r gair *committee* yn tarddu o’r Ffrangeg *commettre* (a’i wraidd wrth gwrs o’r Lladin) sy’n golygu ymrwymo neu hefyd ymddiried. Rydym ni fel Cymry yn hoff o bwyllgora a chynadledda, ond pa fath o bobl sy’n gwneud pwyllgorwyr da? Yn sicr ddigon mae angen arbenigwyr, ond yn anad dim, dybiwn i, mae angen pobl resymol (ond nid dof!). Pobl sy’n meddu ar y gallu i bwyso a mesur, i arfer tegwch ac i ffurfio barn ar sail ac yng ngoleuni’r drafodaeth. Pobl sy’n dod ynghyd â’r un dyheadau i annog eu meddyliau ymlaen, ac mewn ymddiriedaeth yn derbyn ei gilydd. Nid ymadrodd crafog yn unig yw ‘â phob parch’!

### Ffydd, gobaith, cariad

Mae dyletswydd arnom fel Cristnogion i beidio bod yn ofnus o rannu safiad amhoblogaidd. Dywed George Fox yn *Cynghorion a Holiadau* : ‘Wrth chwilio gydag eraill am ewyllys Duw, a ellwch osod o’r neilltu eich dymuniadau a’ch rhagfarnau eich hunan? Na foed i’r awydd am fod yn gymdeithasol, neu ofn ymddangos yn od, gyflyru eich penderfyniad.’ Un arall o’i gynghorion sy’n cyfateb, fe gredaf, i’r hyn fyddai Crist yn ein hannog i wneud yw: ‘Byddwch fyw’n anturus. Boed i’ch bywyd lefaru.’ Ysgwn i, sawl un fydd yn darllen hwn wrth fwynhau cyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn Rhosllannerchrugog yr wythnos hon, ac yn gobeithio gyda mi y byddwn un ac oll yn dyheu am fod yn gyfryngwyr ac ysgogwyr ffydd, gobaith, cariad? Unwn i weld a phrofi gwerth y gwrando, trafod, cymryd pwyll ac ystyried bod grym mewn ambell i ‘efallai’!

**Siân Meinir**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)

# Pwy yw’r Cwmni Bach y tro hwn?

Mae’r bennod ddiweddaraf o bodlediad *Y Cwmni Bach* wedi cyrraedd gwefan Undeb yr Annibynwyr a’r tro hwn rydym ni’n cyflwyno prif weithredwr newydd Cytûn i chi, sef y Parchg Siôn Brynach. Cawn dreulio awr yn ei gwmni yn clywed ei hanes difyr a throeon hynod amrywiol ei yrfa. Y mae gan Siôn ddigon i’w ddweud am bob math o bethau ac mae’n beth braf iawn clywed am ei fagwraeth, ei deulu a’i brofiadau yn ystod ei fywyd. Mae’n berson hawdd i fod yn ei gwmni, yn rhywun sy’n llawn asbri byw yn ogystal â bod yn ddyn deallus, meddylgar ac ysbrydol. Yn ystod y bennod cafwyd adegau o lawenydd ond hefyd o dristwch, sydd ond yn dangos mai gwead hynod amrywiol sy’n creu bywyd. Yn sicr mi fydd gan Siôn gyfraniad mawr i’w wneud gyda Chytûn, y mae’n ddyn o egni ac ymroddiad arbennig. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau’r bennod hon o’r *Cwmni Bach*.




### Adna-pod

Erbyn hyn wrth gwrs mae sawl pennod o’r *Cwmni Bach* ar gael gyda gwestai mor amrywiol â’r canwr Delwyn Siôn, Emlyn Davies Gwaelod-y-garth, Rhun Dafydd o Gymdeithas y Cymod, a Nel Richards yn wreiddiol o Gastell-nedd ond sydd bellach yn byw yn Llundain ac sydd â diddordeb mawr mewn materion amgylcheddol.

Mae pob un o’r podlediadau’n gyfle i ddod i adnabod pobl o bob cwr yn well a

*parhad ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Pwy yw'r Cwmni Bach y tro hwn? – *parhad*

hynny mewn awyrgylch hamddenol a hwyliog. Mae pob rhifyn o'r podlediad i'w cael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, neu ar lwyfannau digidol eraill fel YouTube, Apple a Spotify. Gallwch naill ai wrando arnyn nhw fel radio, neu eu gwylio fel rhaglen deledu ar y we. Adnodd yw'r podlediadau hyn i chi eu defnyddio fel yr hoffech chi, naill ai ar eich pen eich hun neu mewn cwmni. Gallwch eu gwylio nhw adre ar eich cyfrifiadur neu wrando arnyn nhw ar eich ffôn. Ond hefyd maent yn adnodd digidol i'w defnyddio gan eich eglwysi.

### Rhan o oedfa

Os nad oes gennych chi oedfa wedi'i threfnu, pam na wnewch chi ddefnyddio un o bodlediadau *Y Cwmni Bach* yn hytrach? Gallwch gasglu ynghyd yn y capel, cychwyn gyda gweddi agoriadol, canu emyn yna gwylio rhifyn o'r *Cwmni Bach* er mwyn clywed tystiolaeth Gristnogol, yna cloi'r cwrdd drwy ganu emyn ac offrymu gweddi. Neu beth am ddangos pennod o'r *Cwmni Bach* dros baned yn y festri neu yn neuadd y pentref adeg cyfarfod cymdeithasol yn ystod yr wythnos yn hytrach na gwahodd gwestai?

Mae gan bob un o'n gwesteion ni bethau gwych i'w dweud a phob un yn wahanol. Mae podlediadau *Y Cwmni Bach* yn fodd i ni gynnal sgwrs â'n gilydd ac yn bendant mi fydd y sgwrs honno'n parhau yn ein mysg.

Ewch i wefan www:annibynwyr.cymru i weld y casgliad hyd yn hyn.

*[Mae cyfres podlediadau misol* Y Cwmni Bach *yn gynllun dwy flynedd a wnaethpwyd yn bosibl drwy arian gan CWM o dan eu cynllun MSP4 (Mission Support Programme) nhw. Mae ein diolch ni'n fawr iddyn nhw am eu haelioni.]*

## YSGOL HAF Y GWEINIDOGION

**Dydd Mercher, 19 Gorffennaf, 2023**
**I'w gynnal eleni yn rhithiol ar Zoom**

**Thema'r Diwrnod: 'Crefydd a Chymdeithas'**

**✦ Addoli ✦ Trafod ✦ Derbyn ✦ Rhannu ✦**

**Defosiwn:**
Dr Fiona Gannon,
*Arweinydd Capel y Nant, Clydach*

**Sesiwn 1: Astudiaeth Feiblaidd**
Y Parchedig Siôn Brynach,
*Prif-Weithredwr Cytûn*

**Sesiwn 2: 'Crefydd a Chymdeithas' Cymru'r Ugeinfed Ganrif'**
Y Parchedig Ddr D. Densil Morgan,
*Gweinidog Bedyddwyr Gogledd Teifi*

**Amser**
**Cyfarfod y dydd**
9:30–12:30
**Cyfarfod yr hwyr**
7:30

**I gofrestru a derbyn y manylion cyswllt**
Cysylltwch â'r Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau:
**carwyn@annibynwyr.cymru**
neu â Thŷ John Penri
**01792 795888**

**Cyfarfod yr hwyr**

**Darlith Goffa**
**Dr Tudur Jones a Dr Pennar Davies**

**Darlith gyhoeddus am 7:30 o'r gloch**

**Darlithydd gwadd:**
Yr Athro Peredur Lynch
*Athro mewn Llenyddiaeth Gymraeg a Chanoloesol ym Mhrifysgol Bangor.*
**Testun:**
Duw ar drai ar orwel pell: Golwg newydd ar 'Rhyfel' Hedd Wyn

**CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD**

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*